

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala 1/6/2017

Presennol: Y Maer Dorothei Evans, Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Dilys Evans, Rhys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croeso:** Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau Tony Parry, Edith Roberts ac Eifion Roberts.
2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 11 2017. Mater **NP5/53/164D** Uned 5 Parc Menter - adroddwyd fod gwrthwynebiad y Cyngor i'w weld ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri. Adroddodd Cynghorwyr am y pryder yn y dre am y cais cynllunio hwn.
5. **Materion y Clerc:**
 - i. Ymateb Cartrefi Cymunedol Gwynedd i bryderon y Cyngor: trefnwyd fore coffi i geisio lleddfu trigolion cartrefi pobl hŷn yng Nghysgod y Coleg, ond adroddodd y Cynghorwyr fod pryderon y trigolion yn parhau. Mae aelodau o'r Cyngor Tref a'r Heddlu yn gwneud galwadau bugeiliol yn achlysurol, ac fe werthfawrogir hyn gan y trigolion. Mae'r Cynghorydd Dilwyn Morgan yn parhau i siarad ar eu rhan gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd.
 - ii. Y Domen a gwybodaeth am greu Deddfau Lleol (*Cofnod 5v*): mae cam ddefnydd o'r Domen yn parhau a chytunwyd i ofyn i Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd roi cymorth i lunio Is-ddeddf.
 - iii. Maes Chwarae Heol y Castell (*Cofnod 12i*): Deliwyd efo'r gŵyn ac anogwyd adrodd ar unwaith os oes pryderon am ymddygiad.
 - iv. Ymateb NMWTRA i'r pryder am y ffordd rhwng y ganolfan Hamdden a Loch Cafe (12ii): mae'r mater wedi cael ei anfon i sylw Llywodraeth Cymru.
 - v. Derbyniwyd gwybodaeth am gŵyn am sŵn ar y Stryd Fawr ac adroddwyd i'r Clerc, swyddogion Cyngor Gwynedd a'r heddlu ymateb ar unwaith.
 - vi. Diweddariad ar ddeiseb y carchar: mae dros 600 o enwau wedi eu casglu.
6. **Cyngor Gwynedd:** Adroddodd y Cynghorydd Sir fod gwaith yn parhau ar ddynodi Llwybr y Sgotwyr yn un cyhoeddus.

7. **Lloches bws:** Clustnodwyd cyllid ers peth amser i bwrcasu lloches bws. Cytunwyd i holi Parc Cenedlaethol Eryri a oes angen caniatâd cynllunio i osod lloches bws wrth yr arosfan o flaen yr Eglwys Gatholig.
8. **Trefniadau'r dathlu** – cadarnhawyd trefniadau dathlu 50 mlynedd o wasanaeth Dilwyn Jones i Gyngor Tref Y Bala.
9. **Materion Cynllunio:** Cymeradwywyd ceisiadau
 - i. NP5/53/ ADL200B caniatâd i arddangos un arwydd ffasgia heb ei oleuo ac un arwydd ymwithiol heb ei oleuo yn 85 Stryd Fawr
 - ii. NP5/53/545 Cais i ddiddymu dwy simdde, Rhandai Tegid, Heol y Berwyn

10. Materion Cyllid

- i. Darllenwyd y Cyfrifon a ardystiwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar 31/5/17, a darllenwyd sylwadau'r Archwilydd Mewnol ar y Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2016-17. Cytunwyd gyda'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer Cyngor Tref Y Bala am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/17 i sylw'r Archwilydd Allanol.
- ii. Cytunwyd i barhau gyda'r drefn o 2 lofnod ar gyfer arwyddo sieciau'r Cyngor. Mae gan Dilys Evans, Eifion Roberts a'r Clerc yr hawl i arwyddo.

11. Gohebiaeth:

- i. **Gwynedd:** Derbyniwyd Rhaglen Waith y mis.
 - ii. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd Agenda cyfarfod Pwyllgor Ardal 21/6/17.
 - iii. **Arall:** Cartrefi Cymunedol Gwynedd – rhannwyd gwybodaeth am eiddo ar osod. Diolchwyd am y gwahoddiad i Ddiwrnod Agored y Clwb Pêl Droed ar 3/6/17.
- 12. Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr/cydlynedd. Llongyfarchwyd Dorothi Evans ar gael ei hethol yn Gadeirydd Partneriaeth Penllyn. Mynegwyd balchder fod defnydd helaeth o Ganolfan Henblas a bod cynlluniau ar droed i wella'r llawr uchaf o'r adeilad. Cadarnhawyd fod arian wedi ei glustnodi gan Gyngor Tref Y Bala i sicrhau fod y toiledau yn parhau ar agor, a chytunwyd fod angen pwysu am eu huwchraddio. Bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu cyfarfod rhwng y partneriaid yn fuan.
- 11. Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad fod eu cyflwr yn dda a diolchwyd i Carol Rowlands ac Eluned Jones am eu harchwilio. Cytunodd John C Williams i geisio cael baner o ansawdd mwy parhaol.